Y FFORWM

Cylchlythyr Fforwm Cyfathrebu UNSAIN Cymru Wales

YN Y RHIFYN HWN

CYFATHREBIADAU GO IAWN GYDA SIMON WILLIAMS

DYDDIADAU AR GYFER EICH DYDDIADUR

CREU A GOLYGU FIDEO FFONAU CLYFAR GYDA DAN MASON

Lluniwyd y cylchlythyr hwn gan wirfoddolwyr y Fforwn Cyfathrebu. Anfonwch eich cwestiynau neu awgrymiadau ar gyfer cyfrolau yn y dyfodol at: a.gittins@unison.co.uk

Cliciwch ar destun a danlinellir am fwy o wybodaeth

Cyfathrebiadau Go Iawn

Gyda Simon Williams

Dych chi erioed wedi gofyn sut mae creu cyfathrebiadau go iawn, effeithiol, wedi eu teilwra?

Yn ein Penwythnos Hyfforddiant Preswyl ar 23-25 o Fehefin cydweithiodd Simon Williams, tiwtor NUJ o Communicating Causes â ni i ateb y cwestiwn hwnnw.

Arweiniodd Simon ni drwy'r penwythnos yn grefftus, yn trafod cyfleu storïau'n effeithiol, rhannu enghreifftiau o bostiadau pwerus y cyfryngau cymdeithasol, defnyddio modeli Problem, Ateb, Budd i ffurfio cyfathrebiadau a theilwra negeseuon i aelodau gweithgar, goddefiadol a photensial yn strategol.

Adeiladwyd ar waith ymarferol mis Mai Dan Mason a chynhyrchon ni fideos, lluniau dyfyniadau a memes, i gyd ar gael ar grŵp Facebook Cymru Wales UNISON communications forum.

Os dych chi am ddysgu mwy, dewch i'n cyfarfod Fforwm nesa ar 29 o Fedi neu gysylltu ag Alastair am fwy o wybodaeth

AELODAU'R FFORWM CYFATHREBU YN EU PENWYTHNOS HYFFORDDIANT PRESWYL YN LLANDRINDOD 23-25 O FEHEFIN 2023

Dyddiadau ar gyfer eich dyddiadur

Cynhelir digwyddiad nesaf y Fforwm Cyfathrebu :

Dydd Gwener 29ain Medi – Cyfarfod y Fforwm, Llandrindod/hybrid, Canolfan Adnoddau Cyfryngau

Archebwch eich lle gydag Alastair: a.gittins@unison.co.uk

Creu a Golygu Fideo ar eich Dyfais Glyfar

Gyda Dan Mason

Ar 12fed o Fai , daeth y Fforwm Cyfathrebu ynghyd yn swyddfeydd UNSAIN Caerdydd i gwrdd, ffilmio, a golygu o dan arweinyddiaeth arbenigol Dan Mason, hyfforddwr NUJ ac ymgynghorydd gyda Dan Mason Media.

Ymunodd Cynullwr Cymru Wales Jan Tomlinson â ni ar ddechrau'r cyfarfod i ganmol gwaith da'r fforwm yn rhannu arfer da trwy'n cyfarfodydd rheolaidd a Llawlyfr y Fforwm Cyfathrebu.

Wedi cyfarfod byr dechreuon ni ar yr hyfforddiant gyda Dan a arweinion ni drwy enghreifftiau postiadau fideos effeithlon, byrion y cyfryngau cymdeithasol a rhoi cyngor i ni ar leoli, arddulliau fideo, dewis y cefndir cywir ac amseru cwestiynau ac atebion am olygu hawdd.

Ar ôl gweithio mewn parau i ffilmio'n defnyddio cyngor Dan, cwrddon ni eto am sesiwn ymarferol yn dysgu sut mae defnyddio CapCut i droi beth ro'n ni wedi ei ffilmio'n fideos byr gydag isdeitlau, teitlau, cwestiynau ar y sgrin a galwad i weithredu ar y diwedd.

Os dych chi am ddysgu mwy am greu fideos ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, cysylltwch ag Alastair Gittins am ddolenni i Dan's Mobile Video Toolkit a chyngor pellach.

Rupert Denholm-Hall yw swyddog y wasg a'r cyfryngau ar gyfer UNSAIN Cymru, ac mae wrth law i gynnig cymorth i ganghennau yn eu gwaith cyfryngau, ar ddatganiadau i'r wasg yn ymwneud ag ymgyrchoedd cangen yn y gweithle, ac os ydynt am hyrwyddo straeon newyddion da. Cysylltwch ag ef os hoffech gael cymorth ar gyfer eich gwaith gyda'r wasg: r.denholm-hall@unison.co.uk